

# adroddiad ariannol

# 05 06

amgueddfa cymru
national museum wales

**Noddir gan**
Llywodraeth Cynulliad Cymru
**Sponsored by**
Welsh Assembly Government

Cyhoeddwyd yn 2006 gan
Amgueddfa Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd,
CF10 3NP, Cymru
© Amgueddfa Genedlaethol
Cymru

**Cynhyrchu:** Mari Gordon
**Cymraeg:** Meleri Macdonald,
Cathrin Alwen
**Dylunio:** RayEdgar.com
**Argraffu:** Gwasg Gomer
*Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio mewn system adfer na throsglwyddo unrhyw ddarn o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu trwy unrhyw fodd boed yn drydanol, yn fecanyddol neu fel arall, heb yn gyntaf geisio caniatâd ysgrifenedig Amgueddfa Genedlaethol Cymru neu ddeiliad/deiliaid yr hawlfraint, neu fel caniatawyd drwy'r gyfraith. Dylid gyrru unrhyw ymholiadau eraill at yr Adran Gyhoeddiadau, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, CAERDYDD CF10 3NP. Mae pob delwedd yn © Amgueddfa Genedlaethol Cymru os na ddangosir yn wahanol.*

Mae'r Adroddiad yma a'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar ein gwefan,
**www.amgueddfacymru.ac.uk**

*Argraffwyd yr Adroddiad yma ar bapur sydd â Thystysgrif Amgylchedd ISO 14001. Fe'i gwneir o ffibr pren o goedwigoedd cynaliadwy, sy'n rhydd o glorin, yn bydradwy a gellir ei ailgylchu.*

**Noddir gan**
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
**Sponsored by**
Welsh Assembly
Government

amgueddfa cymru

# adroddiad ariannol 2005-06

national
museum
cardiff
amgueddfa
genedlaethol
caerdydd

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NP
+ 44 (0)29 2039 7951

st fagans
national
history
museum
sain ffagan
amgueddfa
werin
cymru

**Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru**
Sain Ffagan
Caerdydd CF5 6XB
+ 44 (0)29 2057 3500

big pit
national
coal
museum
amgueddfa
lofaol
cymru

**Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru**
Blaenafon
Tor-faen NP4 9XP
+ 44 (0)1495 790311

national
roman legion
museum
amgueddfa
lleng rufeinig
cymru

**Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**
Stryd Fawr
Caerllion NP18 1AE
+ 44 (0)1633 423134

national
slate
museum
amgueddfa
lechi
cymru

**Amgueddfa Lechi Cymru**
Gilfach Ddu
Llanberis
Gwynedd LL55 4TY
+ 44 (0)1286 870630

national
wool
museum
amgueddfa
wlân
cymru

**Amgueddfa Wlân Cymru**
Dre-fach Felindre
Llandysul
Sir Gaerfyrddin SA44 5UP
+ 44 (0)1559 370929

**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**
Heol Ystumllwynarth
Ardal Forwrol
Abertawe SA1 3RD
+ 44 (0)1792 638950

**Y Ganolfan Gasgliadau**
Nantgarw
Rhondda Cynon Taf CF15 7QT
+ 44 (0)29 573651

# ADRODDIAD ARIANNOL Y CYNGOR

## Cefndir Statudol

Cafodd Amgueddfa Genedlaethol Cymru (yr Amgueddfa) ei sefydlu drwy Siarter Frenhinol ym 1907, ac mae'n parhau i fod wedi'i chofrestru fel corff cyfreithiol ac elusen o dan yr enw hwn. Yn ystod 2005-06, serch hynny, newidiodd yr Amgueddfa ei enw cyhoeddus o Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i 'Amgueddfa Cymru'.

Mae'n elusen gofrestredig annibynnol, ac yn cael ei hariannu'n bennaf drwy gymhorthdal grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC).

Ei hamcan craidd yw 'cynyddu addysg y cyhoedd' yn cynnwys datblygu ei chasgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl fynd atynt er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, diwygiwyd 1991) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

*'yn bennaf drwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynoleg, sŵoleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru ... drwy gasglu, diogelu, egluro, cyflwyno ... a chyhoeddi pob gwrthrych a pheth.'*

## Nodau ac Amcanion

Dyma nodau ac amcanion cyfoes Amgueddfa Cymru:

> creu amgueddfeydd byw lle mae'r casgliadau yn adrodd eu straeon yn gliriach, ac ymwelwyr yn profi bywyd yn y gorffennol a'r presennol ac yn archwilio amrywiol fersiynau posibl o'r dyfodol

> datblygu casgliadau sy'n llewyrchu, sy'n cael defnydd da, yn cael eu cynnal ac yn tyfu

> darganfod llwybrau er mwyn gwneud synnwyr o'r byd, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau addas ar gyfer dulliau dysgu amrywiol, er mwyn creu cydraddoldeb mynediad at y casgliadau

> dysgu trwy rannu ein cynlluniau gyda'n ymwelwyr, a datblygu ein dulliau gweithredu ar y cyd, er mwyn darparu mynediad ystyrlon i'r casgliadau ar gyfer yr amrywiaeth o bobl sydd wedi ymsefydlu yng Nghymru

> datblygu fel sefydliad dysg drwy seilio sgiliau dysgu wrth galon ein holl waith

> cyfathrebu ein neges fel bod Amgueddfa Cymru yn cael ei adnabod yn ledled y byd fel canolfan ddysg o safon fyd-eang ac yn darparu gwell mynediad a phroffil lleol uwch i'r casgliadau cenedlaethol drwy ein gwaith gyda'n partner sefydliadau

> adeiladu ein hadnoddau fel bod gennym sail gref a soled, y gallwn ei ddefnyddio er mwyn darparu ein Gweledigaeth ar gyfer y ddegawd nesaf a thu hwnt.

Bydd y blaenoriaethau strategol hyn yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth i fod yn 'Amgueddfa Ddysg o safon Fyd-eang' yn ogystal â chefnogi gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddisgrifir yn Cymru: Gwlad Well.

## Aelodaeth y Llys, y Cyngor a'r Bwrdd Rheoli

Ym 1991, cafodd yr Amgueddfa, sydd yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW GB 783 4541 10), Siarter Frenhinol a Statudau atodol newydd. Roedd y Siarter newydd yn newid cyfansoddiad Llys a Chyngor yr Amgueddfa ac yn cadarnhau mai Amgueddfa Genedlaethol Cymru ('The National Museum of Wales') yw'r corff corfforaethol sy'n olynu'r corff a enwyd yn y Siarter gwreiddiol. Diwygiwyd y Siarter yn 2000 i gydnabod awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr awdurdod gweithredol yw'r Cyngor ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiaeth cyllid ac eiddo AOCC, sef yr holl arian a ddaw oddi wrth y Cynulliad neu o ffynonellau eraill, a'r holl diroedd, adeiladau, neu roddion mewn da a roddir ar ran y sefydliad. Mae'r Cyngor yn cwrdd yn gyson, yn gyhoeddus, er mwyn trafod ei fusnes.

Aelodau'r Cyngor yw Ymddiriedolwyr yr Elusen ac maent wedi'u penodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Llys a'r Cyngor, mewn niferoedd a osodir o fewn y Siarter. Gweithredir egwyddorion penodiad agored, fel y nodir yn Adolygiad Nolan, i bob penodiad. Mae bob un newydd a benodir yn dilyn rhaglen gyflwyno, yn cael ei gefnogi gan lawlyfr cynhwysfawr, yn fuan ar ôl eu penodiad. Nid yw'r Amgueddfa yn talu unrhyw aelodau o'r Cyngor na'r Llys.

Mae manylion aelodau'r Llys a'r Cyngor a enwebwyd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymddiswyddo, ymddeol ac wedi ymuno, mewn ychwanegiadau at yr adroddiad hwn. Cedwir manylion unrhyw gwmnïau y maent yn gyfarwyddwyr arnynt a buddiannau sylweddol eraill mewn Cofrestr Buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor hefyd yn dirprwyo awdurdod i amrywiol is-bwyllgorau, yn bennaf y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, sydd â chylch gwaith eang i fonitro materion gweithredol;  y Pwyllgor Archwilio, sydd â Chadeirydd annibynnol a thri aelod annibynnol arall, gan gynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol; a Bwrdd yr is-gwmni sy'n cyfarwyddo gweithgareddau masnachol yr Amgueddfa. Mae'r cwmnïau hyn yn cwrdd yn chwarterol.

Y Gyfarwyddiaeth sy'n delio â materion gweithredol dyddiol, ac mae'r manylion hefyd wedi'u hychwanegu at yr adroddiad hwn. Mae pob aelod o'r Gyfarwyddiaeth wedi'u penodi drwy gystadleuaeth agored ac wedi'u cyflogi dan Delerau ac Amodau Cyflogaeth arferol yr Amgueddfa, sy'n berthnasol i'r holl staff, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y mae telerau ei benodiad yn cael eu cytuno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Rheoli Risg

Mae Cyngor, Pwyllgorau a Chyfarwyddwyr yr Amgueddfa yn ystyried y prif beryglon strategol, busnes a gweithredol y mae'r Amgueddfa'n ei wynebu yn gyson, ac maent wedi sefydlu Grŵp Rheoli Risg er mwyn sicrhau bod peryglon yn cael eu hadolygu a'u hadrodd ledled yr holl sefydliad, a bod mesurau lliniaru cadarnhaol perthnasol yn eu lle. Mae'r systemau hyn wedi bod yn eu lle ers nifer o flynyddoedd ac maent yn parhau i fod yn gyfan gwbl weithredol yn unol â'r arfer gorau. Archwilir gwaith y Grŵp Rheoli Risg gan y Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. Hefyd, adolygir pob perygl yn flynyddol fel rhan ganolog o'r broses gynllunio gorfforaethol, tra ei fod hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r cynllun archwilio mewnol.

## Newid Rheolaeth

Yn ystod 2005-06, cwblhaodd yr Amgueddfa ei adolygiad sylfaenol o'i nodau ac amcanion gyda'r bwriad o ffurfio Gweledigaeth ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain - *Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol*. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys ymgynghoriad eang gydag ymwelwyr a budd-ddeiliaid, a datblygiad sylweddol wrth baratoi argymhellion ar gyfer diwygio rheolaeth yr Amgueddfa, sy'n dilyn adolygiad pum mlynedd gynharach a wnaed ar gais Llywodraeth y Cynulliad.

Ar 1 Chwefror 2006 cyflwynwyd Deiseb i'r Cyfrin Gyngor am Siarter Frenhinol Atodol – gan gynnwys disgrifiad o'r cynllun ymgynghori a fydd yr Amgueddfa yn ei osod yn lle'r Llys – gyda'r disgwyliad y byddai'n cael ei gwblhau erbyn haf 2006.

Bydd y cynllun ymgynghoriad a fydd yn cymryd lle'r Llys yn cynnwys:

- dau gyfarfod agored y flwyddyn, a fydd yn cael eu hyrwyddo'n dda a'u marchnata'n weithredol
- bas data ymgynghori
- fforymau pynciau a diddordebau arbennig a fyddai'n esblygu ac yn newid o bryd i'w gilydd; a
- fforymau ad hoc ar faterion penodol a fyddai hefyd yn medru newid o bryd i'w gilydd a datblygu
- cyfarfodydd rheolaidd gyda Phwyllgor Diwylliant y Cynulliad a chyrff eraill; a
- cysylltiad rheolaidd gyda sefydliadau diwylliannol, hanesyddol a gwyddonol sydd â diddordebau perthnasol, yn lleol a chenedlaethol
- strwythur ffurfiol i adrodd yn ôl i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr (y Cyngor).

Mae'r Llys yn fodlon gyda'r corff/cyrff arfaethedig a fydd yn cymryd ei le. Cafwyd cytundeb hefyd ar argymhellion ynglŷn â phenodi Ymddiriedolwyr newydd i'r Elusen a bydd Ymddiriedolwyr yn cael eu penodi ac ail-benodi am bedair blynedd yn unol â'r Siarter a Statudau Atodol.

## Safleoedd Amgueddfa Cymru

Yn ystod 2005-2006, roedd yr Amgueddfa yn gweithredu amgueddfeydd mewn saith lleoliad ledled Cymru, sy'n cael eu hadnabod (o fis Tachwedd 2005) fel:

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** ym Mharc Cathays, Caerdydd
**Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru** yn Sain Ffagan, Caerdydd
**Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru** Blaenafon, Torfaen
**Amgueddfa'r Lleng Rufeinig** yng Nghaerllion, Casnewydd
**Amgueddfa Lechi Cymru** yn Llanberis, Gwynedd
**Amgueddfa Wlân Cymru** Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin
**Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** yn Abertawe

Hefyd mae gan yr Amgueddfa Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sydd hefyd ar gael i'r cyhoedd drwy drefniant. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae gennym drefniadau partneriaeth gyda sefydliadau lleol am reolaeth dau safle arall:
Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon, Gwynedd
Oriel Tŷ Turner, Penarth, Bro Morgannwg

Yn ystod 2005-06 moderneiddiodd yr Amgueddfa ei enw a'i brandio gweledol yn llwyddiannus yn gorfforaethol ac o ran marchnata'r saith safle fel atyniadau ymwelwyr. Hefyd dathlodd yr Amgueddfa lwyddiannau nodedig ledled ei safleoedd, gan gynnwys:

*Big Pit*
Y Mehefin 2005 enillodd Big Pit y wobr £100,000 Gulbenkian am Amgueddfa'r Flwyddyn 2005 – y wobr ddiwylliannol fwyaf yn y DG.

*Amgueddfa Wlân Cymru*
Cyrhaeddodd yr amgueddfa genedlaethol gymharol fach hon gamau olaf Gwobr Amgueddfa Ewropeaidd y Flwyddyn 2006.

*Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe*
Agorwyd yr Amgueddfa newydd yn swyddogol ar 17 Hydref 2005 ac mae wedi ennill nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Ymddiriedolaeth Ddinesig am ei phensaernïaeth ddyfeisgar ac fe'i hystyriwyd ar gyfer Gwobr Gulbenkian am Amgueddfa'r Flwyddyn 2006.

## Fformat y Cyfrifon

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Mae copi o'r Gyfeireb Cyfrifon ar gael drwy wneud cais i Gyfarwyddwr Cyllid yr Amgueddfa. Mae cyfrifon yr Amgueddfa yn cyd-fynd â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2005) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau', ac at ddibenion y SORP, Adroddiad Ariannol y Cyngor yw Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Daeth Datganiad o Arferion Cymeradwy newydd (SORP 2005) i rym ar gyfer cyfnodau cyfrifo yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2005 ac mae wedi arwain at rai newidiadau wrth gyflwyno'r ffigurau yng nghyfrifon eleni.

Wedi'u hymgorffori o fewn ffigurau cyfunol yr Amgueddfa mae canlyniadau masnachu yr unig is-gwmni dan berchnogaeth lawn, Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. Y cwmni hwn sy'n gweithredu'r mwyafrif llethol o weithgareddau masnachu'r Amgueddfa. Hefyd wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Amgueddfa mae ei chyfran o 50% o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf., menter ar y cyd gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe, gyda'i brif bwrpas o ddatblygu'r amgueddfa newydd yn Abertawe.

## Canlyniadau Ariannol y Flwyddyn

Daeth gwerth £4,419,000 o adnoddau cyfunol net i mewn i'r Amgueddfa cyn costau enwol (£6,371,000 yn 2004-05). Daeth cyfanswm o £29,365,000 o adnoddau i mewn i'r Amgueddfa (£24,797,000 yn 2004-05) a gwariwyd cyfanswm o £26,720,000 (£24,310,000 yn 2004-05). Y lleihad net mewn cyllid ar gyfer y flwyddyn ar ôl cymryd yr holl enillion a cholledion wedi, a heb eu gwireddu i ystyriaeth oedd £8,805,000 (cynnydd net o £22,799,000 yn 2004-05). £91,280,000 oedd balans y gronfa ar 31 Mawrth 2006 (£100,085,000 ar 31 Mawrth 2005). Cofnododd Mentrau AOCC Cyf. elw o £277,000 cyn cymorth rhoddion i'r Amgueddfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2005-06 (£302,000 yn 2004-05).

## Dangosyddion Perfformiad

Mae'r Amgueddfa yn adolygu ei systemau rheoli perfformiad ar hyn o bryd. Fel rhan o'r gwaith, ar ddiwedd 2005-06 comisiynwyd Adolygiad Archwiliad Gwerthuso. Bydd hyn yn rhestru'r wybodaeth sydd yn cael ei gasglu a'i adrodd ar hyn o bryd o fewn yr Amgueddfa, darparu enghreifftiau o arfer gorau cyfoes ac argymell y mathau o werthuso meintiol ac ansoddol y dylai'r Amgueddfa anelu i'w gynnal, a'r effaith a'r cyrhaeddiad o ganlyniad. Hefyd bydd yr adroddiad yn dangos sut y gall yr Amgueddfa, yn ogystal ag anghenion adrodd chwarterol statudol Llywodraeth y Cynulliad a Phwyllgor Adolygu Perfformiad yr Amgueddfa, fesur lefel ei lwyddiant drwy ddatblygiad parhaus tuag at gyflawni ei uchelgais sefydliadol uchaf, dod yn 'Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol'.

Yn ystod 2005-06 cyfanswm yr ymweliadau gyda'n safleoedd oedd 1,343,685, yn erbyn targed o 1,400,000. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r oedi cyn agor Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, yn ogystal â thywydd gwael yn ystod y cyfnod gwyliau a effeithiodd ar ymweliadau Sain Ffagan yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Mae'n dda nodi, fodd bynnag, bod nifer yr ymweliadau â gwefan Amgueddfa Cymru a'r nifer o'r ymweliadau hynny a oedd yn hwy na 10 munud wedi pasio'r targed, gan ddangos y cynnydd parhaus yn niferoedd ein hymwelwyr a defnyddwyr eraill sydd yn dewis cyrraedd at wybodaeth am ein gwaith yn y modd hwn. Mae dogfennu a chatalogio'r casgliadau hefyd yn mynd yn ei flaen yn dda, gan gyrraedd targedau yn y ddau faes.

Mae'r nifer o brojectau ymchwil, ymholiadau am gasgliadau a'r nifer o leoliadau sydd wedi derbyn benthyciadau yn ystod y flwyddyn, i gyd wedi pasio'u targed, gan ddangos cryfder parhaus y gwaith o ddosbarthu'r wybodaeth sydd yn y casgliadau.

## Buddsoddiadau Cyfalaf ac Asedau Sefydlog

Gwelodd 2005-06 ddatblygiad sylweddol ar Broject aml-safle Gofal a Mynediad Casgliadau'r Amgueddfa, gyda gwariant tua £1.4m allan o fras amcan diwygiedig o gyfanswm o £4.4m ar gyfer y prosiect. Gwariwyd £1.3m arall ar brif raglen o waith cynnal a chadw'r ystâd ac eitemau cyfalaf eraill, a fydd yn parhau dros y ddwy flynedd nesaf, ac sydd wedi'i gynnal gan grant cyfalaf o £3m oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Hefyd gwelodd y flwyddyn ddatblygiad Prif Gynllun Cyfalaf sydd nid yn unig yn cwmpasu'r gwaith cynnal a chadw hanfodol sydd ei angen yn safleoedd yr Amgueddfa, ond a fydd hefyd yn darparu cynnydd yn y gofod orielau sydd ar gael a chynorthwyo ail -ddiffiniad safleoedd yr Amgueddfa yn unol gyda'i Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.  Darperir manylion pellach o'r Prif Gynllun Cyfalaf yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Yn unol â pholisïau cyfrifo'r Amgueddfa, ail-werthuswyd asedau yn broffesiynol eleni, ac yn unol ag anghenion Trysorlys Ei Mawrhydi byddant yn cael eu hail-werthuso yn flynyddol drwy weithredu mynegai hyd at yr ailwerthusiad proffesiynol nesaf ymhen 5 mlynedd. O ganlyniad i ailwerthusiad proffesiynol eleni, diddymwyd £13.2m o werth asedau'r Amgueddfa. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi codi yn sgil dwy ffactor. Yn gyntaf, ni chafodd y symiau sylweddol o gyfalaf a fuddsoddwyd yn y Big Pit, Amgueddfa Wlân Cymru a'r Ganolfan Gasgliadau Cenedlaethol dros y pum mlynedd diwethaf, eu hadlewyrchu mewn cynnydd cyfatebol yn y gwerthusiad proffesiynol ar ddiwedd y flwyddyn eleni. Yn ail, profodd cynnydd mynegeio mewn gwerth tir ac adeiladau dros y pum mlynedd diwethaf, a seiliwyd ar 'All-in Tender Price Index', i fod yn uwch na'r twf mewn gwerth yn codi o'r ailwerthusiad proffesiynol.

Yr unig asedau nad ail-werthuswyd drwy fynegai oedd asedau TG, yn sgil gostyngiad cyffredinol pris asedau TG dros amser, ac asedau treftadaeth. Mae asedau treftadaeth a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 heb eu cyfalafu, ac mae asedau treftadaeth ers y dyddiad hwnnw wedi cael eu cofnodi ar gost. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried bod costau prisio asedau treftadaeth yn afresymol. Serch hynny, mae'r Amgueddfa yn nodi'r ddogfen drafodaeth ddiweddar ar brisio asedau treftadaeth a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, a bydd yn adolygu ei pholisi.

## Caffael Sbesimenau

Mae caffaeliadau wedi dod yn fwyfwy anodd yn sgil sefydlogrwydd y gronfa caffael sbesimenau o'i gymharu â'r farchnad gynyddol ar gyfer henebion a chelf. Serch hynny, mae prif gaffaeliadau 2005-06 yn cynnwys:

Casgliad Oes Efydd Burton, a gafwyd ar gost o £85k gyda chefnogaeth £35k oddi wrth y Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a £21k oddi wrth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol.

Darlun gan Peter Lanyon, o'r enw *Beach Girl*, a gafwyd am £135k gyda chyfraniadau o £58k oddi wrth Ymddiriedolaeth Derek Williams Trust a £20k oddi wrth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol.

Hefyd cafodd yr Amgueddfa gasgliad o dair ar ddeg o ddarnau celf a gyfrannwyd gan y Gronfa Casgliadau Celf Cenedlaethol, Cymdeithas Celf Gyfoes ac Oriel Timothy Taylor. Amcangyfrifir mai gwerth yr eitemau a gyfrannwyd yw £92k.

Mae manylion yr holl asedau treftadaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn Nodyn 10 i'r cyfrifon, a dylid nodi bod hyn yn cynnwys trosglwyddiad i asedau treftadaeth o asedau sefydlog, o ran costau cyfalaf a gododd cyn hyn yn Big Pit ac Amgueddfa Wlân Cymru, a gododd yn rhan o'r gwaith o ailddatblygu'r safleoedd hynny.

## Codi Arian a Gwirfoddolwyr

Cyfanswm yr incwm a'r addewidion a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn gan Adran Ddatblygu'r Amgueddfa oedd £525k o ystod o ffynonellau eraill Llywodraethol a chyhoeddus, Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, cwmnïau ac unigolion. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda

tharged blynyddol cychwynnol o £322k a gododd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn i £410k.

Parhaodd y rhaglen arddangosfeydd dros dro yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a'i weithgaredd addysgiadol, i ddenu cyllid. Yn arbennig, cefnogwyd arddangosfeydd *Gwen ac Augustus John* ac *Arcanum: mapio porslen o'r ddeunawfed ganrif*, a derbyniwyd cyllid i ehangu ein cynllun partneriaeth llwyddiannus.

Mae'r Cyfeillion yn cefnogi gwaith yr Amgueddfa mewn tair ffordd – yn gyntaf, fel cenhadon am waith yr Amgueddfa, yn darparu rhaglen o sgyrsiau, tripiau a gweithgareddau eraill sydd yn cefnogi gweithgaredd addysgiadol yr Amgueddfa ei hun.

Yn ail, mae'r Cyfeillion yn darparu grŵp gwirfoddol er mwyn cefnogi gweithgareddau'r Amgueddfa ei hun. Mae aelodau o'r grŵp hwn yn croesawu grwpiau ac unigolion, megis grwpiau Cyfeillion o Amgueddfeydd eraill, ymwelwyr achlysurol sydd yn ymddiddori, a hefyd yn cynorthwyo staff curadurol ledled sbectrwm gweithgareddau'r Amgueddfa. Mae'n bwysig nodi bod gweithgaredd o'r fath yn cael ei ystyried gan yr Amgueddfa fel ychwanegiad gwerthfawr, yn hytrach na darpariaeth wirfoddol o waith sylfaenol pan fo cymhwysedd yn isel. Cafwyd cyfanswm o 126 diwrnod o waith gan y Cyfeillion ar sail wirfoddol, a arweiniodd at ddarparu teithiau wedi'u tywys ar gyfer tua 890 o ymwelwyr.

Yn drydydd, mae'r Cyfeillion hefyd yn darparu cefnogaeth ariannol tuag at brosiectau amrywiol ac eleni cyfrannwyd yn hael tuag at fan addysg, grantiau ymchwil, llwybrau teuluol, gwaith yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig, a chyllid ar gyfer datganiadau organ a hyfforddiant ar gyfer aelod o staff arbenigol.

Mae'r Noddwyr yn parhau i gynyddu eu cefnogaeth amhrisiadwy drwy eu haelodaeth, a thrwy waith adfocatiaeth wrth recriwtio cefnogwyr eraill i'r cynllun.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Bwrdd Datblygu, a wnaed o unigolion sydd wedi cytuno i gynorthwyo'r Amgueddfa wrth gwrdd â'i thargedau codi arian. Mae'r Amgueddfa yn ddiolchgar am yr ymroddiad a ddangoswyd gan yr unigolion hyn ac rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r gweithgaredd hwn yn y blynyddoedd i ddod.

## Perfformiad Talu'n Brydlon

Mae'r Amgueddfa'n cefnogi amcanion cod ymarfer *Better Payment* Trysorlys ei Mawrhydi a'i nod yw talu anfonebau dilys o fewn 30 diwrnod. Naw diwrnod oedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer talu anfonebau yn ystod 2005-06 (14 diwrnod yn 2004-05), sydd yn cynnwys 95% o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (91% yn 2004-05). Mae'r gwelliant perfformiad mewn talu o fewn 30 diwrnod yn adlewyrchu dychweliad i'r arfer, yn dilyn gosod system rheolaeth ariannol newydd yn ystod ail hanner 2004-05. Ni wnaed taliad llog dan Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998 (£14.27 yn 2004-05).

## Y Polisi ar Gronfeydd Cadw

Fel corff sy'n casglu a chynnal casgliadau er mwyn cyflawni ei nodau ac amcanion, mae'r polisi ar gronfeydd cadw a nodir yma yn berthnasol i gronfeydd arian i'w wario yn unig.

Mae'r polisi hwn ar hyn o bryd yn ddibynnol ar yr awdurdod a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Natganiad Rheolaeth a Memorandwm Cyllid yr Amgueddfa sydd yn cyfyngu'r cronfeydd cadw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i 2% o'i gyllideb, yn ychwanegol i'r gallu i gario drosodd, ond nid i dynnu i lawr oddi wrth y Cynulliad, 3% arall o'r cymorth grant blynyddol. Croesawyd yr hyblygrwydd cynyddol hwn o 2% o ddiwedd y flwyddyn ariannol 2004-05, fel cymorth i ddiddymu gwariant ariannol cyflymach ar ddiwedd blwyddyn ariannol, a gan ei fod yn galluogi'r Amgueddfa i ddefnyddio balans diwedd y flwyddyn er mwyn esmwytháu addasiadau cyllideb o flwyddyn i flwyddyn, ac i gyfrannu at ddatblygiadau cyfalaf sydd yn croesi dyddiadau diwedd blwyddyn. Cynlluniodd yr Amgueddfa yn unol â hynny, ond yn anffodus nid

oedd Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa i anrhydeddu'r trefniant hwn, ac yn ystod 2005-06 rhyddhawyd dim ond £319k o'r £637k a gludwyd drosodd nad oedd wedi cael ei dynnu i lawr, ac a adroddwyd ei fod ar gael yng nghyfrifon llynedd.

Roedd yn rhaid addasu cyllidebau 2005-06 yr Amgueddfa ar ôl i ni gael gwybod am benderfyniad Llywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2005, ac roedd yn rhaid gohirio ambell wariant cyfalaf o ganlyniad. Mae'r penderfyniad hefyd wedi effeithio ar gynlluniau cadw'r Amgueddfa ar 31 Mawrth 2006, o ran y ffaith nad oedd yr Amgueddfa am beryglu colled bellach i'r hawliau cymorth grant drwy beidio tynnu arian i lawr oddi wrth y Cynulliad, ac felly cyflymwyd gwariant er mwyn mwyhau'r cyllid a oedd ar gael. Derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig o allu'r Amgueddfa i gyrraedd at y swm o £986,000 na dynnwyd i lawr fel rhan o ddosbarthiad Cyfalaf i'r Prosiect Gofal Casgliadau a Mynediad.

Mae cronfeydd preifat yn cael eu cynnal ar wahân a'u nodi yn y cyfrifon. Ni does unrhyw derfyn cario drosodd ar y rhain, a pholisi yr Amgueddfa yw adeiladu'r cronfeydd hyn a'u defnyddio ar brosiectau a chynlluniau cyfalaf nad ydynt yn derbyn cyllid craidd.

Caiff elw'r is-gwmni masnachol sy'n llwyr eiddo i'r Amgueddfa, sef Mentrau Cyfyngedig AOCC, ei ddefnyddio i ddarparu cyllid ychwanegol tuag at nodau ac amcanion yr Amgueddfa. Ar adegau gall hyn olygu bod yr elw'n cael ei ail-fuddsoddi yn yr is-gwmni masnachu er mwyn gwella'r canlyniadau masnachol ymhellach. Bydd y trefniadau i drosglwyddo'r elw i'r Amgueddfa hefyd yn rhoi sylw priodol i gadw goblygiadau treth y gwaith masnachu mor isel â phosibl.

Mae'r Amgueddfa wedi cychwyn ar gynllun tymor hir o ddatblygu cyfalaf ac adnewyddu yn ei lleoliadau o ganlyniad i broses y Weledigaeth. Er mwyn cyfrannu tuag at gyllido'r datblygiadau hyn, mae'n hanfodol bod yr hyblygrwydd eithaf i gadw cronfeydd ar gael, drwy gario drosodd a thrwy gadw elw masnachol.

Cyfanswm Cronfeydd yr Amgueddfa ar 31 Mawrth 2006 oedd £91,280,000 gyda dadansoddiad yn cael ei ddarparu o fewn y nodiadau i'r Cyfrifon Ariannol.

### Polisi a Pherfformiad Buddsoddiadau

Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol, Gerrard Ltd sydd yn buddsoddi cronfeydd preifat yr Amgueddfa ar ei ran. Mae agwedd ddarbodus o ran risgiau, mae'r cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn portffolio risg canolig ac mae elfen sylweddol yn cael ei chadw mewn buddsoddiadau arian parod. Caiff perfformiad y cronfeydd hyn ei adolygu'n gyson. Cododd gwerth y portffolio yn ystod y flwyddyn o £1,696k i £1,961k a oedd yn uwch na'r cynydd ar gyfer buddsoddiadau o'r fath.

Hefyd cadwodd yr Amgueddfa rodd fel buddsoddiad ecwiti mewn deg cwmni da. Cododd gwerth y portffolio hwn yn ystod y flwyddyn o £73k i £94k.

### Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae gan yr Amgueddfa gynllun pensiwn â buddion diffiniedig sydd ar gael i'r holl staff parhaol. Yn unol â'r mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath, mae gwerthusiad blynyddol ar gyfer y cyfrifon statudol wedi dangos diffyg mewn asedau'r cynllun o'i gymharu gyda rhwymedigaethau'r cynllun. Achoswyd y diffyg yn y lle cyntaf gan gwymp sylweddol yng ngwerth buddsoddiadau'r cynllun, yn arbennig buddsoddiadau ecwiti. Yn ystod 2005-06, gwelodd adfywiad parhaus yn y farchnad ecwiti gynnydd yng ngwerth buddsoddiadau'r cynllun sydd, gyda chyfraniadau eleni, wedi gweld cynnydd yn asedau'r cynllun o £12.8m. Mae'r cynnydd hwn, fodd bynnag, wedi'i wrthweithio gan gynnydd cyfatebol mewn rhwymedigaethau, wedi'u hachosi'n bennaf gan well cyfraddau disgwyliad einioes a chyfraddau gostyngiad is.

Mae manylion am y modd y cyfrifir costau pensiwn yn cael eu cynnwys yn nodiadau polisïau cyfrifo'r cyfrifon. Mae nodyn 16 i'r Adroddiad Ariannol yn cynnwys y manylion datgelu y gofynnir amdanynt dan Ddatganiad Adroddiad Ariannol 17, ac yn cymharu gwerth asedau'r cynllun heddiw â'i rhwymedigaethau posibl. Mae gwerth diffyg y cynllun wedi codi ychydig ar 31 Mawrth 2006 i £9.693m o'i gymharu â diffyg cychwynnol o £9.353m. Rhan allweddol o gyfrifon safle'r cynllun yw graddfa'r gostyngiad sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn cyfrifo gwerth cyfredol y rhwymedigaethau. Mae rheidrwydd ar yr Amgueddfa gydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys, sydd eleni yn cynnwys cyfarwyddyd y dylid defnyddio graddfa gostyngiad o 5.7%. Cymerwyd y raddfa angenrheidiol i ystyriaeth yn y cyfrifiad gan actwari'r cynllun.

Mae gwerthusiad tair blynedd y cynllun, sydd yn cael ei baratoi er mwyn cynorthwyo i benderfynu ar raddfeydd cyfraniadau yn y dyfodol, yn cael ei baratoi ar hyn o bryd fel ar 31ain Mawrth 2006. Mae'r paramedrau sy'n cael eu cynnwys o fewn y gwerthusiad hwn yn cael eu penderfynu gan ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, gan ddefnyddio cyngor proffesiynol actwariaid y cynllun, ac ni fydd yn cael ei gyfyngu gan ganllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi. Bydd ymddiriedolwyr y cynllun, mewn ymgynghoriad gyda'r Amgueddfa, yn defnyddio'r gwerthusiad mwy darbodus hwn wrth benderfynu ar y cyfraniadau sy'n angenrheidiol. Mae cyfrifon cychwynnol a baratowyd gan yr actwariaid yn dangos diffyg o £13.4m.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Amgueddfa wedi cymryd amrywiol gamau er mwyn wynebu'r diffyg hwn, gan gynnwys cynnydd o 4½% mewn cyfraniadau'r cyflogwr i'r 21.3% cyfredol, a derbyniwyd hwb ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn y cyfamser, mae'r Amgueddfa yn dibynnu ar y ffaith bod diffyg y cynllun yn cael ei gynnwys yn y diffyg pensiwn a ddangosir yng nghyfrifon y Cynulliad, ac ar sicrwydd ysgrifenedig oddi wrth y Cynulliad y bydd cyllid yn cael ei ddarparu o leiaf hyd at y lleiafswm angenrheidiol er mwyn galluogi'r Amgueddfa i gyrraedd at lefelau cyfraniadau statudol. Yn ystod 2005-06, ceisiodd yr Amgueddfa ffurfioli'r warant hon gan ddefnyddio ffurf o eiriau a fydd yn rhyddhau'r cynllun o rwymedigaethau'r Gronfa Diogelu Pensiynau ac yn darparu sicrwydd dros ddiffyg y cynllun. Mae'r warant ffurfiol hwn bellach wedi ei dderbyn, ac wedi ei anfon at Fwrdd y Gronfa. Dylai hyn alluogi ymddiriedolwyr y cynllun a'r Amgueddfa i gymryd golwg ehangach ynglŷn â diddymu diffyg y cynllun.

## Datblygiadau yn y Dyfodol

***Amgueddfa Cymru - Gweledigaeth: Creu Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol***
Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn cynnal adolygiad sylfaenol o'n gweithgareddau a'n dyheadau, wrth i ni symud tuag at ddathliad ein canmlwyddiant yn 2007. Rydym wedi ymgynghori'n eang ac mae barn ein budd-ddeiliaid, a gafwyd drwy'r gwaith hwn, wedi bod yn sail i ddatblygiad set o feysydd gweithredu sy'n cael blaenoriaeth a fydd yn ffurfio fframwaith ein gwaith am y ddegawd nesaf a thu hwnt.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn arwain ein gwaith mewn sawl maes allweddol gyda'r bwriad o:

> wella profiadau ymwelwyr yn ein holl safleoedd drwy edrych ar y ffyrdd yr ydym yn defnyddio'r casgliadau cenedlaethol er mwyn dweud straeon y bydd ein hymwelwyr yn cysylltu â hwy. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn adfywio ac yn datblygu arddangosfeydd y casgliadau celf ac archaeoleg yn Amgueddfa Cymru Caerdydd, a rhan o'r casgliadau hanes cymdeithasol yn Sain Ffagan drwy ddatblygiad project 'Oriel 1'

> parhau i ddatblygu ein hadnoddau gofal casgliadau, ledled ein safleoedd, drwy gyflawni Project Gofal a Mynediad Casgliadau a sicrhau bod y casgliadau yn parhau i dyfu mewn ffyrdd sydd yn berthnasol i'n cenhedlaeth newydd o ymwelwyr

> cynorthwyo'r bobl sy'n defnyddio'n amgueddfeydd i wneud synnwyr o'r byd drwy ddefnyddio amrywiol gyfryngau dehongli, gan gynnwys datblygiad y 'Rhith - Amgueddfa' a fydd yn caniatáu i bobl ledled y byd elwa o'r wybodaeth sydd yn greiddiol yng nghasgliadau cenedlaethol Cymru

- datblygu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio fel bod ein digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau ymchwil yn cydio yn amrywiol gymunedau Cymru ac yn annog pobl sydd heb ymgysylltu gyda'n gwaith yn y gorffennol i gymryd rhan yn yr hyn sydd gennym i'w gynnig

- darparu mwy o fynediad a chynyddu proffil lleol y casgliadau cenedlaethol drwy ein gwaith gyda phartner-sefydliadau, gan arwain at arddangos a dehongli gwrthrychau mewn amrywiol gymunedau ledled Cymru a thu hwnt

- codi proffil Amgueddfa Cymru, gan sicrhau bod ein henw da fel canolfan dysg a chasgliadau o safon ryngwladol yn hysbys ledled Cymru a'r byd ehangach

- gosod datblygiad sgiliau dysgu wrth galon ein gwaith drwy feithrin a chynnal talent yn ein staff a thrwy gynnal deialog gyda phartneriaid allanol a budd-ddeiliaid er mwyn gwella'r ffyrdd yr ydym yn gweithio

- adeiladu a chynnal ein hadnoddau drwy fwyhau'r incwm sy'n cael ei greu o ystod o ffynonellau a thrwy lynu at egwyddorion Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad 2004-07 ac agenda Cyflawni'r Cysylltiadau.

***Cynllunio Cyfalaf***

Fel y nodwyd yn gynharach, arweiniodd proses y weledigaeth at ail-ddiffinio dau safle mwyaf poblogaidd yr Amgueddfa. Daeth Sain Ffagan yn amgueddfa hanes genedlaethol i Gymru a bydd Amgueddfa Cymru Caerdydd, Parc Cathays, yn datblygu i fod yn ddwy amgueddfa gysylltiedig, Amgueddfa Hanes Naturiol Genedlaethol ac Amgueddfa Gelf Genedlaethol.

Er mwyn cyflawni'r dyheadau hyn datblygwyd Cynllun Cyfalaf. Canolbwyntiodd gwaith cynnar yn y maes hwn ar sicrhau bod y casgliadau yn cael eu cadw mewn storfeydd addas. Yna cefnogwyd hyn drwy wynebu'r llwyth cynnal a chadw sylweddol, a fydd, pan yn llawn weithredol, yn sicrhau bod yr Amgueddfeydd yn dal y tywydd, gyda gwell gofod cyhoeddus, a bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ail-arddangos y casgliadau parhaol yn y safleoedd hyn.

Mae projectau cychwynnol o fewn y Cynllun yn cynnwys:

***Project Gofal a Mynediad Casgliadau***

Datblygwyd nifer o brojectau sy'n perthyn i'w gilydd a fydd, pan yn gyflawn, yn gwella amgylchiadau storio'r casgliadau cadw. Ail ddatblygwyd y Llofft Patrwm yn Amgueddfa Lechi Cymru er mwyn galluogi'r casgliadau o batrymau pren i gael eu storio a'u cofnodi yn gywir. Y prif ddatblygiad eleni, serch hynny, oedd y gwaith i ymestyn y Ganolfan Gasgliadau Cenedlaethol yn Nantgarw er mwyn darparu storfa addas ac adnoddau cadwraeth ar gyfer nifer o gasgliadau cadw'r Amgueddfa a gedwir yn Amgueddfa Cymru Caerdydd a Sain Ffagan.

Cynllunnir gwaith pellach yn Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Serch hynny, yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa wybod bod ei chais i Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL) am £1m i ddatblygu adnoddau yn Sain Ffagan yn aflwyddiannus. O ganlyniad, gostyngwyd y gyllideb ar gyfer y prosiectau hyn o £5.4m i £4.4m, er bod y £3.5m o gyllid oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad heb newid. O ganlyniad i'r newid hwn i'r cyllid sydd ar gael mae'r prosiect wedi oedi ychydig, ac mae bellach wedi cael ei ail-ddiffinio er mwyn i'r Amgueddfa barhau i fedru wynebu'r mwyafrif o'r argymhellion a ddaeth o adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli casgliadau yn yr Amgueddfa.

***Gwaith Cynnal a Chadw Hanfodol***

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo £3m dros gyfnod o dair blynedd er mwyn galluogi'r Amgueddfa i ddechrau edrych ar rai o'r materion buddsoddiad cyfalafol tymor hir y mae bellach yn eu hwynebu. Tra bod y mwyafswm o'r gwaith yn canolbwyntio ar adnewyddu rhannau diffygiol o'r to yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan, bydd hefyd angen gwella'r gwasanaethau trydanol ledled y ddau safle hyn. Er mwyn mwyhau effaith y cyllid hwn,

mae'r Amgueddfa wedi ychwanegu £500,000 y flwyddyn o'i gyllideb cyfalaf er mwyn galluogi'r gwaith i ddigwydd.

Yn ystod y flwyddyn mae'r prosiectau a wnaed yn cynnwys adnewyddu to Oriel 1 yn Sain Ffagan, darparu lifft newydd i'r anabl, a gwella adnoddau arlwyo a masnachu yn Sain Ffagan yn ogystal â nifer o brosiectau llai yn y safleoedd eraill.

### *Ail-arddangos y Casgliadau*
Penodwyd timau cynllunio i oruchwylio'r projectau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf, a fydd yn cynnwys y prif brojectau cynnal a chadw a amlinellir uchod, yn ogystal ag ail-ddatblygu ein harddangosfeydd archaeolegol yn Amgueddfa Cymru Caerdydd drwy greu oriel 'Gwreiddiau' yn ogystal ag ail arddangos ein casgliadau celf. Yn Sain Ffagan, mae cynlluniau eisoes wedi'u datblygu er mwyn creu arddangosfa hyblyg ar gyfer y casgliadau yn Oriel 1.

### *Rhith Amgueddfa*
Mae gweledigaeth yr Amgueddfa – Amgueddfa Ddysg o Safon Ryngwladol – yn cynnwys ymrwymiad i 'ddefnyddio technoleg newydd er mwyn creu "Rhith Amgueddfa Cymru" sydd yn lleol ac yn fyd-eang ei gyrhaeddiad, er mwyn dod â chyfleoedd dysgu newydd mewn amrywiol ffyrdd ac amgylchedd'.

Yn ystod 2005-06, cyflawnwyd llawer o ran datblygu'r cysyniad ac, wedi ei ddatblygu'n llawn, bydd y Rhith Amgueddfa yn wythfed safle amgueddfa, ac nid yn ddim ond ail allanfa gyhoeddi ar gyfer ein gweithgareddau. Dyma ddisgrifiad bras o'r lefelau gwybodaeth o fewn y Rhith Amgueddfa:

> blaen: cyflwyniad i'r safle a phwynt mynediad at y wybodaeth drwy themâu, pynciau, geiriau allweddol, daearyddiaeth, chwilio ayyb.

> Lefel 1: erthyglau poblogaidd, yn cynnwys tua 600 erthygl ddwyieithog yn cwmpasu pob disgyblaeth. Bydd hyn yn ffurfio gwybodaeth graidd y safle, gyda'r erthyglau yn cael eu cysylltu yn addas a'u clystyru yn ôl thema a phwnc. Hefyd bydd cyflwyniad i gasgliadau, arbenigedd ac arddangosfeydd

> Lefel 2: ymchwil a gweithgareddau yn cwmpasu prosiectau ymchwil cyfredol, manylion staff ymchwil, gwybodaeth gymunedol ac adnoddau dysgu

> Lefel 3: data casgliadau yn cysylltu catalogau a chronfeydd data.

Bwriedir lansio Cam 1 o'r Rhith Amgueddfa ym Medi 2007, blwyddyn ein canmlwyddiant.

## Polisïau yn ymwneud â Staff
### Cyfle Cyfartal a gweithredoedd o ran cyflogaeth staff anabl
Mae'r Amgueddfa yn gweithredu proses benodi anwahaniaethol ac mae bob amser yn barod i ystyried ceisiadau oddi wrth, ac i benodi, pobl anabl. Yn fwy na hyn, gwneir bob ymdrech i sicrhau y darperir y cyfleusterau angenrheidiol i staff anabl fedru gweithio yn effeithiol. Hefyd, mae'r Amgueddfa wedi cychwyn buddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus er mwyn gwella hygyrchedd i'r anabl, i'r adeiladau ac at wybodaeth. Mae gweithgor, dan gadeiryddiaeth un o'r Cyfarwyddwyr, yn parhau i asesu cyfrifoldeb yr Amgueddfa i weithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd.

Yn ogystal â'i bolisi ar anabledd, mae'r Amgueddfa yn nodi yn ei bolisi ar Gyfle Cyfartal ei fod 'wedi ymrwymo at ddileu bob ffurf o gamwahaniaethu ac aflonyddu o fewn ei sefydliad'. Mae hyn yn cwmpasu rhyw, statws priodasol, anabledd, lliw, hil a chenedl gwraidd, gwraidd ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb teulu, oed a ffydd grefyddol.

### Y camau a gymerwyd i gynnal neu ddatblygu'r dulliau o rannu gwybodaeth ac ymgynghori â staff

Mae'r Amgueddfa yn parhau i gydymffurfio gyda Rheolau Gwybodaeth ac Ymgynghoriad 2005 gan ymgynghori gyda'i undebau ar brif newidiadau mewn polisi. Mae hyn yn sefydlu ein safbwynt cyfreithiol, sydd wedyn yn cael ei ehangu gan bortffolio o brosesau hwyluso, gan gynnwys cyfarfodydd staff, cyfarfodydd adran, gweithgorau, e-bost, y fewnrwyd a dulliau anffurfiol o gyfathrebu fel bo'n addas.

### Hyfforddiant Staff

Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd datblygiad a hyfforddiant ar gyfer ei holl staff er mwyn sicrhau:

- Eu bod yn medru cyfrannu mor effeithiol ag sy'n bosibl tuag at yr amcanion cyffredinol
- Bod ganddynt gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu'n bersonol a mynd â'u gyrfa yn ei flaen
- Eu bod yn cael eu cefnogi ar bob lefel gan reolwyr sydd â'r math cywir o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth
- Eu bod yn cael ystod o wybodaeth a sgiliau, arbenigol a chyffredinol, er mwyn i'r Amgueddfa ddatblygu gweithlu â sgiliau sylfaenol eang.

### Adroddiad Taliadau

Mae'r Amgueddfa yn talu bob aelod o staff dan system wedi'i gytuno o dâl a graddio, a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd yn benodol er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfiawn. Roedd hyn yn disodli'r system flaenorol, a oedd wedi caniatáu anghydraddoldeb yn y berthynas rhwng swydd a thâl ac anghyfartaledd tâl rhwng dynion a menywod. Datblygwyd ein system newydd yn fewnol gan weithgor a oedd yn cynnwys croestoriad o staff a chynrychiolwyr undeb dan arweiniad yr Adran Adnoddau Dynol, sydd wedi cael y cyfrifoldeb o gynnal y system.

Mae'n cwmpasu holl staff yr Amgueddfa ym mhob safle, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol (y mae termau ei benodiad yn cael eu cytuno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru). Mae proses apêl annibynnol yn weithredol er mwyn ystyried materion graddio. Bob blwyddyn mae'r Adran Adnoddau Dynol yn ystyried taliadau yr Amgueddfa yn erbyn rhai cyffelyb allanol, newidiadau economi ac unrhyw anghyfartaledd mewnol a all fod wedi datblygu. Cynhyrchir gorchwyl neu argymhelliad tâl drwy hyn, ac mae'n cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Lywodraeth y Cynulliad a'i negydu gan yr Undebau. Mae hyn yn arwain at becyn tâl ac amodau newydd ar gyfer yr Amgueddfa yn gyfan, sydd yn orfodol hyd at y rownd negydu nesaf.  Mae cynnydd o dan y gorchwyl tâl yn ddibynnol ar system yr Amgueddfa o adolygiadau datblygiad personol. Mae'r holl staff yn derbyn elfennau chwyddiant sy'n cael eu cynnwys o fewn y gorchwyl tal a gytunwyd.

Mae cyflog y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol gyda bonws blynyddol. Cytunir ar swm y bonws hwn (hyd at fwyafswm o 10% o'i gyflog) gan Bwyllgor Taliadau, sy'n cynnwys y Llywydd, Is-lywydd, Trysorydd a Dr W.B. Willott. Wrth ystyried swm y bonws i'w roi, adolygir perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn erbyn set o amcanion a gytunwyd ymlaen llaw, yna bydd y Pwyllgor Taliadau yn ystyried y gwerthusiad perfformiad hwn. Yna mae canran o'r bonws yn cael ei gyfuno gyda'i gyflog blynyddol, ac mae'r swm sy'n cael ei gyfuno yn cael ei benderfynu drwy ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dangosir aelodaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr yr Amgueddfa ar dudalen 14 a cheir mwy o fanylion am daliadau a budd-daliadau pensiwn y Gyfarwyddiaeth o fewn nodyn 7(c) i'r Cyfrifon.

Nid oes un o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar gytundeb tymor penodol, ac mae bob un, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, wedi'u cyflogi ar delerau ac amodau arferol yr Amgueddfa. Mae unrhyw addasiadau i delerau ac amodau o ran y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ddibynnol ar gytundeb rhwng y Pwyllgor Taliadau a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, lle bo'n addas.

Mae cyfnod rhybudd terfyniad aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn amrywio gyda hyd y cyfnod o wasanaeth. Bydd angen  5 wythnos o rybudd ar yr Amgueddfa am gyfnod llai na 4 blynedd o wasanaeth.  Yna bydd angen 1 wythnos o rybudd am bob blwyddyn o wasanaeth (ac 1 wythnos ychwanegol) hyd at uchafswm o 13 wythnos. Mae hawl gan Bwrdd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol i

dderbyn 6 mis o rybudd. Dyddiadau cychwyn cyflogaeth y Gyfarwyddiaeth yw: Michael Houlihan (Cyfarwyddwr Cyffredinol) -14 Ebrill 2003; Eurwyn Wiliam – 29 Medi 1971; Jon Sheppard – 1 Tachwedd 2002; John Williams-Davies – 1 Medi 1973; Michael Tooby – 1 Ionawr 2000; Mark Richards – 25 Ionawr 1999; Robin Gwyn – 1 Chwefror 2001. Mae darpariaeth am iawndal am derfyniad cynnar wedi'i gynnwys o fewn cytundeb diswyddiad arferol yr Amgueddfa.

## Polisi Iaith Gymraeg

Mae strategaeth iaith Llywodraeth y Cynulliad - *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* – yn ceisio prif ffrydio'r iaith Gymraeg ledled bob maes polisi o fewn y llywodraeth ei hun, ac yng ngwaith y CCNC, gan sicrhau bod pob cyfle yn cael ei ddefnyddio i:

- hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg
- cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad i greu Cymru ddwyieithog.
- cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Disgwylir i bob CCNC i lunio ac adolygu strategaeth prif ffrydio iaith Gymraeg yn flynyddol. Gweithredwyd Strategaeth Prif Ffrydio 2005-06 yr Amgueddfa yn llawn ac mae wedi ei adolygu er mwyn adlewyrchu oblygiadau prif ffrydio Cynllun Gweithredol ar gyfer 2006-07.

Hefyd, adolygwyd Cynllun Iaith yr Amgueddfa (1997) yn ystod 2004-05, er mwyn adlewyrchu anghenion prif ffrydio. Yn ystod 2005-06, cymeradwyodd Bwrdd yr Iaith y Cynllun diwygiedig.

## Yr Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd yn archwilio'r cyfrifon yn ôl gofynion Adran 9 (8) o'r Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae manylion tâl yr archwilydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006 yn Nodyn 6 i'r Cyfrifon.

## Prif Swyddfa

Prif swyddfa yr Amgueddfa Genedlaethol yw: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

## Prif Ymgynghorwyr

| | |
|---|---|
| Bancwyr: | Lloyds TSB Bank PLC, Caerdydd |
| Cyfreithwyr: | Geldards LLP, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol: | PricewaterhouseCoopers LLP, Caerdydd (hyd at 31/3/2006)<br>Bentley Jennison Risk Management Ltd., Caerdydd<br>(o 1 Ebrill 2006) |
| Rheolwyr Buddsoddiadau: | Gerrard Ltd, Caerdydd |
| Rheolwyr y Gronfa Bensiynau: | Mercer Human Resource Consulting, Bryste |
| Trethiant: | Deloitte & Touche LLP, Caerdydd |

*Michael Houlihan*
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
31 Gorffennaf 2006

*G. Wyn Howells*
Trysorydd, ar ran y Cyngor
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
31 Gorffennaf 2006

## LLYS Y LLYWODRAETHWYR
(O 1 Ebrill 2005 hyd at 31 Gorffennaf 2006)

**Llywydd**
Paul E. Loveluck, CBE, YH

**Cyn-lywydd Diwethaf**
Mathew Prichard, CBE, DL, BA

**Is-lywydd**
Dr Susan J. Davies, BA

**Trysorydd**
G. Wyn Howells, ACIB

**Aelodau'r Cyngor Nad Ydynt yn Aelodau o'r Llys**
J. W. Evans, CBE, MA
Yr Athro C. L. Jones, OBE, FRSA
Jane Peirson Jones, MA, FMA

**Penodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**
Dr P. T. Warren, CBE, MA (hyd at Fawrth 2006)
Linda D. Quinn, M.Sc (hyd at Fawrth 2006)
C. Malcolm Parry (hyd at Fawrth 2006)
H. R. C. Williams
Rhiannon Wyn Hughes, MBE
Elisabeth Elias, MA, DL (o 1 Mehefin 2006)
Gareth Williams (o 1 Mehefin 2006)

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Dr R. Brinley Jones CBE

**Prifysgol Cymru**
Mair Waldo Thomas
Yr Athro J. King

**Cydbwyllgor Addysg Cymru**
Y Cynghorydd G. Richards

**Aelodau Seneddol Cymru**
W. Griffiths (hyd at Mai 2005)

**Penodwyd gan y Llys**
D. Bowen Lewis
Dr W. B. Willott, CB
C. Rowland (hyd at Hydref 2005)
H. Mansfield
Yr Athro J. Last, CBE
Dr Iolo ap Gwynn

**Cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol**
Y Cynghorydd P. G. Larsen
Y Cynghorydd P. M. Thomas
Y Cynghorydd R. H. Poole
Y Cynghorydd D. I. Bowen
Y Cynghorydd J. Austin
Y Cynghorydd R. G. Harris
Y Cynghorydd J. Major
Y Cynghorydd J. M. Humberstone
Y Cynghorydd Mrs E. McIlveen
Y Cynghorydd M. C. Wilkins

### Sefydliadau yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Archaeoleg Cambria | D. Moore |
| Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol | R. Alun Evans |
| Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru | H. Looker |
| Cyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru | Y Cynghorydd R. Francis-Davies |
| TUC Cymru | A. Wellington |
| Cyngor CBI Cymru | Gwag |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | M. A. McLaggan |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cadeirydd |
| Bwrdd Croeso Cymru | J. Jones |
| Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru Cyf | Gwag |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Prif Weithredwr |
| Cyngor Archaeoleg Prydain | F. L. Llewelyn |
| Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | C. J. Delaney |

## CYNGOR
(O'r 1 Ebrill 2005 hyd at 31 Gorffennaf 2006)

**Llywydd**
Paul E. Loveluck, CBE, YH *

**Cyn-lywydd Diwethaf**
Mathew Prichard, CBE, DL, BA

**Is-Lywydd**
Dr Susan J. Davies, BA *

**Trysorydd**
G. Wyn Howells, ACIB *

**Penodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru**
Dr P. T. Warren, CBE, MA (hyd at Fawrth 2006)
H. R. C. Williams
Rhiannon Wyn Hughes, MBE
Elisabeth Elias, MA, DL (o 1 Mehefin 2006)
Gareth Williams (o 1 Mehefin 2006)

**Penodwyd gan Lys y Llywodraethwyr**
D. Bowen Lewis
Dr W. B. Willott, CB
Yr Athro J. Last, CBE
Dr Iolo ap Gwynn

**Penodwyd gan y Cyngor**
J. W. Evans, CBE, MA
Yr Athro C. L. Jones, OBE, FRSA
Jane Peirson Jones, MA, FMA

* Dynodi aelodau'r Pwyllgor Archwilio

## BWRDD Y CYFARWYDDWYR
(O 1 Ebrill 2005 hyd at 31 Gorffennaf 2006)

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cyffredinol | Michael Houlihan |
| Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil (Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol) | Eurwyn Wiliam |
| Cyfarwyddwr Cyllid | Jon Sheppard |
| Cyfarwyddwr Gweithredu yr Amgueddfeydd | John Williams-Davies |
| Cyfarwyddwr Addysg a Rhaglenni | Michael Tooby |
| Cyfarwyddwr Datblygu Strategol | Mark Richards |
| Cyfarwyddwr Cyfathrebu | Robin Gwyn |

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R CYFARWYDDWR CYFFREDINOL

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr (Cyngor) Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gadw at ofynion Datganiad Arfer Argymelledig (2005): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn arbennig:

> gadw at gyfarwyddyd cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a'u defnyddio nhw a pholisïau cyfrifo perthnasol mewn ffordd gyson;
> barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a chall;
> nodi a yw'r safonau cyfrifo a'r datganiadau o arferion cymeradwy perthnasol wedi cael eu dilyn fel y nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol
> paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, yn disgrifio cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys bod yn gyfrifol am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano a chadw cofnodion priodol.

### Datganiad ar ddatgelu gwybodaeth i archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Trysorydd, ar ran y Cyngor, yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth berthnasol i'r archwiliad sydd yn anhysbys i archwilwyr yr Amgueddfa, ac maent wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad, ac i sicrhau bod archwilwyr yr Amgueddfa yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## DATGANIAD AR Y SYSTEM REOLI FEWNOL

1. **Cwmpas y cyfrifoldeb**
Mae'r Swyddog Cyfrifo a'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw system rheoli fewnol gadarn sy'n helpu i wireddu'r polisïau, y nodau ac amcanion a bennwyd gan y Cyngor ar gyfer Amgueddfa Cymru, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo o ran Cyfrifon y Llywodraeth.

2. **Pwrpas y system reoli fewnol**
Bwriad y system reoli fewnol yw rheoli yn hytrach na dileu unrhyw risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; nid yw'n rhoi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond mae'n cynnig sicrwydd rhesymegol.

Wrth wraidd y system rheoli fewnol mae proses barhaus i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Amgueddfa, pwyso a mesur tebygolrwydd y risgiau hyn a'u heffaith, a'u rheoli mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Roedd y system rheoli fewnol yn gweithredu drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys.

3. **Gallu ymdrin â risg**
Cyfrifoldeb y Bwrdd Rheoli yw rheoli risg o ddydd i ddydd, gydag adolygiadau ffurfiol yn cael eu cynnal gan Grŵp Rheoli Risg. Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu hastudio gan is-bwyllgor Adolygu Perfformiad y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio annibynnol. Drwy dynnu ar brofiad yr archwilwyr mewnol, sy'n mynychu'r adolygiadau risg, a thrwy brofiad aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, mae'r broses yn cael ei adnewyddu'n barhaus o'i gymharu gyda sefydliadau eraill.

4. **Y Fframwaith Risgiau**
Cynhelir adolygiad Rheoli Risg trylwyr gan grŵp trawsadrannol penodol, sy'n adolygu cynnydd wrth reoli risgiau mawr, gan gynnwys, wrth gwrs, diogelwch parhaus casgliadau'r Amgueddfa. Cedwir Cofrestr Risg gan y grŵp, gyda'r holl risgiau yn cael eu blaenoriaethu yn unol â thebygolrwydd gwireddu'r perygl, a'r effaith posibl. Mae'r grŵp hwn trafod yn gyson gyda phob Pennaeth Adran ynglŷn â newidiadau mewn bygythiadau posibl i wireddu nodau'r Amgueddfa, ac felly sicrhau bod y risgiau sy'n cael eu hasesu yn cwmpasu pob agwedd o weithredoedd yr Amgueddfa.

Cedwir Cofrestrau Risg eraill ar gyfer yr is-gwmni masnachol ac ar gyfer pob prif brosiect yn ystod eu cyfnod. Ar ddiwedd project, er enghraifft adeiladu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, bydd y Gofrestr Risg yn cael ei hasesu a phob risg sy'n parhau yn cael eu trosglwyddo i brif gofrestr yr Amgueddfa.

Mae gofyn i'r grŵp hefyd ystyried risgiau posibl penodol gan y Cyngor, a'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio. Hefyd, mae'r Pwyllgorau Adolygu Perfformiad ac Archwilio yn adolygu'r newidiadau i'r Gofrestr Risg a materion a drafodir yng nghyfarfodydd chwarterol y grŵp, yn ogystal â gweithredoedd lliniarol a gymerir yn erbyn y risgiau a raddiwyd uchaf.

Mae aelodaeth y Grŵp Rheoli Risg yn cynnwys yr archwilydd mewnol er mwyn asesu materion mynediad sy'n codi pryder mewn cyrff eraill, tra bod cynrychiolaeth adrannol yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ystyriaeth o bob risg posibl.

Mae'r Polisi a Chanllawiau Rheoli Risg yn gosod y fframwaith a swyddogaethau a chyfrifoldebau rheoli risg, ynghyd â chanllawiau adnabod, asesu, monitro a rheoli risg.

5. **Adolygiad o effeithiolrwydd**

Y Swyddog Cyfrifo sydd hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reoli fewnol. Mae gwaith yr archwilwyr mewnol a'r Bwrdd Rheoli - sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol - a sylwadau archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill, yn bwydo'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Mae yna gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau sy'n codi ac i sicrhau gwelliannau parhaus. Hysbyswyd y Swyddog Cyfrifo am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheoli fewnol gan yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae cynllun i wynebu gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus o'r system.

Mae'r Amgueddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol i ategu'r fframwaith rheoli risgiau er mwyn cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol:

> Systemau cyllidebu a gweinyddu cynhwysfawr gan gynnwys gwahanu dyletswyddau ac amrywiol lefelau o ddirprwyo awdurdod

> Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan Ymddiriedolwyr a'i hadolygu'n rheolaidd gan y Rheolwyr, y Cyfarwyddwyr a'r yr Cyngor, ar ffurf adroddiadau ariannol chwarterol sy'n disgrifio perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;

> Pennu targedau er mwyn mesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall, a monitro'r cynnydd yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Adolygu Perfformiad;

> Canllawiau clir ar gyfer rheoli buddsoddiadau cyfalaf;

> Adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol yn ôl safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheoli fewnol ac yn rhoi argymhellion ar gyfer gwella.

> Adroddiadau chwarterol oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, sydd yn monitro gwaith yr archwilwyr mewnol a'r Grŵp Rheoli Risg i'r Cyngor;

*Michael Houlihan*
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
31 Gorffennaf 2006

*G. Wyn Howells*
Trysorydd, ar ran y Cyngor
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar
31 Gorffennaf 2006

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwy'n tystio fy mod i wedi archwilio datganiadau ariannol Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2006. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd gan yr adbrisiad o asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a osodir ynddynt.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Archwilwyr**
Cyngor a Chyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, fel y Swyddog Cyfrifo, sydd yn gyfrifol am baratoi Datganiadau Ariannol y Cyngor a'r datganiadau ariannol, a sicrhau cysondeb yn nhrafodaethau ariannol a ariannir gan grant Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymorth Grant). Gosodir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r anghenion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol, a gyda Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DG ac Iwerddon).

Byddaf yn adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddaf yn adrodd fy marn o ran a gafodd y gwariant, incwm a'r adnoddau a ariannwyd gan y Cymorth Grant, ym mhob modd perthnasol, eu cymhwyso ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn adrodd os yw Adroddiad Ariannol y Cyngor yn anghyson gyda'r datganiadau ariannol, yn fy marn i, ac os na fydd yr Amgueddfa wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na fyddaf yn derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad, neu os yw'r wybodaeth a nodir gan awdurdodau perthnasol ynglŷn â thaliadau neu drafodion eraill heb eu datgelu.

Byddaf yn ystyried a yw'r datganiad ar dudalennau 16 ac 17 yn dangos bod yr Amgueddfa wedi cydymffurfio â chanllawiau Datganiad ar Reolaeth Fewnol y Trysorlys. Byddaf yn nodi os nad yw'n gwneud hynny. Nid oes gofyn i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reoli Mewnol yn cwmpasu'r holl risgiau. Hefyd nid oes gofyn i mi roi barn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Amgueddfa na'i threfniadau risg a rheoli.

Darllenais y wybodaeth arall a gafodd ei gynnwys yn yr Adroddiad Ariannol, ac ystyried a yw'n gyson gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Ystyriaf yr oblygiadau i'm hadroddiad os fyddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad ymddangosiadol neu anghysonderau materol gyda'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn at unrhyw wybodaeth arall.

### Sail y farn
Cyflawnais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DG ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys archwiliad, ar sail profion, o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol y mae'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn eu gwneud wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Amgueddfa, yn cael eu harfer yn gyson ac yn cael eu datgelu mewn digon o fanylder.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y

datganiadau ariannol yn rhydd o gamfynegiant materol; boed hynny'n anfwriadol, neu drwy dwyll neu fathau eraill o afreoleidd-dra, bod y gwariant, incwm ac adnoddau a ariannwyd gan Gymorth Grant wedi cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso'n gyffredinol addasrwydd y dull o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Y Farn**

Yn fy marn i:

> mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2006, o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y'u defnyddiwyd a llif arian y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddyd a wnaed odani gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

> ym mhob ffordd faterol, mae'r gwariant, incwm ac adnoddau a ariannwyd gan Gymorth Grant wedi cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

*Jeremy Colman*
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Deri House
2-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

3 Awst 2006

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2006

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad £'000 | Cronfeydd Preifat Cyfyngedig £'000 | Cronfeydd Preifat Digyfyngiad £'000 | **2005-06 Cyfanswm £'000** | Ail ddatgan 2004-05 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU I MEWN** | | | | | | | |
| **Gweithgareddau Codi Arian:** | | | | | | | |
| Incwm o Fuddsoddi | | 0 | 0 | 54 | 15 | 69 | 83 |
| Incwm o'r is-gwmni masnachol | 2 | 0 | 1,930 | 0 | 0 | 1,930 | 1,667 |
| Incwm codi arian | | 0 | 0 | 340 | 37 | **377** | 582 |
| | | **0** | **1,930** | **394** | **52** | **2,376** | 2,332 |
| **Gweithgareddau Datblygu Gwrthrychau:** | | | | | | | |
| Grantiau | 3 | 4,549 | 20,200 | 0 | 0 | **24,749** | 21,458 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 4 | 111 | 0 | 197 | 88 | **396** | 151 |
| Incwm Arall | 5 | 209 | 1,615 | 16 | 4 | **1,844** | 856 |
| | | **4,869** | **21,815** | **213** | **92** | **26,989** | 22,465 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU I MEWN** | | **4,869** | **23,745** | **607** | **144** | **29,365** | 24,797 |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | 6&7 | | | | | | |
| **Cost Codi Arian:** | | | | | | | |
| Cost Is Gwmni Masnachol | | 0 | 1,653 | 0 | 0 | **1,653** | 1,365 |
| Cost Codi Arian | | 0 | 225 | 0 | 221 | **446** | 370 |
| | | **0** | **1,878** | **0** | **221** | **2,099** | 1,735 |
| **Cost Gweithgareddau Elusennol:** | | | | | | | |
| Addysg a Rhaglenni | | 183 | 2,580 | 69 | 0 | **2,832** | 2,473 |
| Casgliadau ac Ymchwil | | 1,281 | 6,961 | 8 | 1 | **8,251** | 7,713 |
| Gweithredoedd Amgueddfa | | 831 | 11,095 | 213 | 100 | **12,239** | 11,316 |
| | | **2,295** | **20,636** | **290** | **101** | **23,322** | 21,502 |
| **Cost Rheolaeth** | | 0 | 579 | 0 | 0 | **579** | 599 |
| **Cost Ariannu Pensiynau** | 16 | 0 | 720 | 0 | 0 | **720** | 474 |
| **CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD** | | **2,295** | **23,813** | **290** | **322** | **26,720** | 24,310 |
| **CYFRAN O'R FENTER AR Y CYD** | 8 | **1,774** | **0** | **0** | **0** | **1,774** | 5,884 |
| **ADNODDAU NET I MEWN/(ALLAN) CYN COSTAU ENWOL** | | **4,348** | **(68)** | **317** | **(178)** | **4,419** | 6,371 |
| Cost enwol cyfalaf | | (3,495) | (280) | 0 | 0 | **(3,215)** | (2,980) |
| **ADNODDAU NET I MEWN/(ALLAN) CYN TROSGLWYDDIADAU** | | **853** | **212** | **317** | **(178)** | **1,204** | 3,391 |
| Gwyrdroi Cost enwol cyfalaf | | 3,495 | (280) | 0 | 0 | **3,215** | 2,980 |
| **ADNODDAU NET I MEWN/(ALLAN) AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **4,348** | **(68)** | **317** | **(178)** | **4,419** | 6,371 |
| Enillion/(Colledion) heb eu gwireddu ar adbrisio fasedau sefydlog at ddefnydd Elusennol | 9 | (13,076) | (17) | (119) | (14) | **(13,226)** | 9,754 |
| Enillion wedi/heb eu gwireddu ar brisio buddsoddiadau ar y farchnad | 11 | 0 | 0 | 238 | 50 | **288** | 180 |
| Enillion/(colledion) actwarïaidd ar y cynllun pensiwn â buddion diffiniedig | 16 | 0 | (286) | 0 | 0 | **(286)** | 6,494 |
| **SYMUDIAD NET YN Y CRONFEYDD YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **(8,728)** | **(371)** | **436** | **(142)** | **(8,805)** | 22,799 |
| **BALANS Y GRONFA AR 1 EBRILL 2005** | 17 | **104,230** | **(7,808)** | **3,182** | **481** | **100,085** | 77,286 |
| **BALANS Y GRONFA AR 31 MAWRTH 2006** | 17 | **95,502** | **(8,179)** | **3,618** | **339** | **91,280** | 100,085 |

**Mae'r holl weithgareddau'n parhau**

**Cofnodwyd lleihad net anghyfunol o £8,806,000 mewn cronfeydd yn Natganiad Gweithgareddau Ariannol yr Amgueddfa yn ystod 2005-06 (cynnydd o £22,801,000 yn 2004-05).**

**Ail osodwyd cymariaethau blynyddoedd blaenorol ar gyfer newidiadau yn sgil SORP2005 (Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau). Nid oes newidiadau i falans cyffredinol y gronfa ar gyfer llynedd.**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 23 i 37 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

## MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2006

| | | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2006** | 2005 | **2006** | 2005 |
| | Nodiadau | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 9 | **71,688** | 88,370 | **71,688** | 88,374 |
| Asedau Treftadaeth | 10 | **10,985** | 5,512 | **10,985** | 5,512 |
| Cyfran o'r Fenter ar y cyd: | 8 | | | | |
| Cyfran o'r asedau gros | | **13,985** | 12,244 | **13,985** | 12,244 |
| Cyfran o'r rhwymedigaethau gros | | **(335)** | (369) | **(335)** | (369) |
| | | **13,650** | 11,875 | **13,650** | 11,875 |
| Buddsoddiadau | 11 | **2,055** | 1,769 | **2,055** | 1,769 |
| | | **98,378** | 107,526 | **98,378** | 107,530 |
| **ASEDAU CYFOES** | | | | | |
| Stoc | 12 | **106** | 113 | **485** | 431 |
| Dyledwyr i dalu cyn pen 12 mis | 13 | **2,791** | 1,966 | **2,226** | 1,456 |
| Dyledwyr i dalu ar ôl 12 mis | 13 | **71** | 0 | **71** | 0 |
| Arian yn y banc ac arian parod | | **620** | 526 | **923** | 877 |
| | | **3,588** | 2,605 | **3,705** | 2,764 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 14 | **(970)** | (730) | **(1,028)** | (835) |
| **ASEDAU CYFOES NET** | | **2,618** | 1,875 | **2,677** | 1,929 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU LLAI'R RHWY MEDIGAETHAU CYFOES** | | **100,996** | 109,401 | **101,055** | 109,459 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | 15 | **(82)** | (21) | **(82)** | (21) |
| **ASEDAU NET HEB GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN** | | **100,914** | 109,380 | **100,973** | 109,438 |
| Rhwymedigaethau i'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig | 16 | **(9,693)** | (9,353) | **(9,693)** | (9,353) |
| **ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN** | | **91,221** | 100,027 | **91,280** | 100,085 |
| **CRONFEYDD** | 17 | | | | |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig | | **95,502** | 104,230 | **95,502** | 104,230 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad | | **1,455** | 1,487 | **1,514** | 1,545 |
| Cronfa Bensiynau | | **(9,693)** | (9,353) | **(9,693)** | (9,353) |
| Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad | | **(8,238)** | (7,866) | **(8,179)** | (7,808) |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig | | **3,618** | 3,182 | **3,618** | 3,182 |
| Cronfeydd Preifat Digyfyngiad | | **339** | 481 | **339** | 481 |
| | | **91,221** | 100,027 | **91,280** | 100,085 |

**Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan**

***Michael Houlihan***
**Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar**
**31 Gorffennaf 2006**

***G. Wyn Howells***
**Trysorydd, ar ran y Cyngor**
**Cymeradwywyd a llofnodwyd ar**
**31 Gorffennaf 2006**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 23 i 37 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

## CYFRIFLEN LLIF ARIAN GYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2006

| | | Amgueddfa | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2005-06** | 2004-05 | **2005-06** | 2004-05 |
| | Notes | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Llif Arian Net i mewn o Weithgareddau Gweithredu** | 18 | **3,355** | 1,416 | **3,309** | 1,686 |
| **Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiadau Ariannol** | 19 | **(3,262)** | (1,641) | **(3,262)** | (1,641) |
| **Cynydd/(Lleihad) mewn Arian** | 20 | **93** | (225) | **47** | 45 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 23 i 37 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## NODIADAU AR Y CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2006

### 1. Polisïau Cyfrifo

**1.1 Y Sail Cyfrifo**
Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, sydd wedi'i addasu i gynnwys adbrisiad o'r asedau sefydlog diriaethol yn eu gwerth i'r Amgueddfa. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar y wybodaeth sy'n cael ei rhoi, mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP 2000), Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r datganiadau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, lle bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gallai'r eithriadau i'r SORP Elusennau fod yn berthnasol o ran yr angen am ddatgelu cost hanesyddol asedau diriaethol. Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio'n llwyr â Safon Adrodd Ariannol 17 – Budd-daliadau Ymddeol.

**1.2 Mentrau ar y Cyd**
Mae'r Amgueddfa a Chyngor Dinas a Sir Abertawe yn ddau bartner cyfartal yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe (AGGA) Cyf, cwmni cyfyngedig dan warant ac nid oes ganddo gyfran cyfalaf. Mae canlyniadau'r fenter ar y cyd wedi cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros.

**1.3 Yr Is-gwmni**
Mae'r Amgueddfa yn gweithredu is-gwmni masnachu sy'n eiddo llwyr iddi o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (Mentrau AOCC) Cyf, elwid gynt yn Matchtake Ltd. Mae canlyniadau masnachu'r cwmni wedi cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol. Cafwyd barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Mentrau Cyf. AOCC ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2006.

**1.4 Adnoddau a Gafwyd**
Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol os yw'n bodloni'r amodau ar gyfer ei dderbyn. Caiff unrhyw grantiau eu credydu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth eu derbyn. Caiff incwm ar gyfer gwasanaethau ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion os ydynt yn bodloni'r amodau ar gyfer eu derbyn.

**1.5 Adnoddau a Wariwyd**
Caiff gwariant ei ddyrannu ar draws penawdau gwariant ar sail dyraniad uniongyrchol a dosraniad anuniongyrchol yn achos costau cefnogol fel bo'n addas.

**1.6 Asedau Sefydlog Diriaethol ac Asedau Treftadaeth**
Caiff peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau eu prisio ar sail cost adnewyddu ar ôl dibrisiant. Caiff eiddo ar bridles a rhydd-ddaliad ei brisio ar sail gwerth economaidd eu defnydd neu gost adnewyddu ar ôl dibrisiant fel bo'n addas. Caiff unrhyw waith cynnal a chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn ei ddileu yn ystod y flwyddyn pan wneir y gwaith.

Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwysigrwydd hanesyddol, artistig neu wyddonol sydd yn cael eu cadw er mwyn cymryd camau ymlaen o ran amcanion cadwedigaeth, cadwraeth, ac addysgiadol elusennau, a chyfrannu drwy fynediad cyhoeddus i ddiwylliant ac addysg y genedl ar raddfa genedlaethol neu leol. Mae'r asedau hyn yn ganolog ar gyfer cyflawni amcanion yr Amgueddfa ac yn cynnwys tir, adeiladau, arddangosion ac arteffactau. Ers 1 Ebrill 2001, mae asedau treftadaeth a brynwyd drwy grant sbesimenau neu a gyflwynwyd i'r Amgueddfa wedi cael eu cyfalafu ar sail cost hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw asedau a ddaeth i feddiant cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolwyr mae cost prisio'r rhain yn afresymol.
Ni chaiff eitemau cyfalaf â chost o lai na £5,000 eu cyfalafu. Caiff asedau eu hailbrisio'n broffesiynol bob 5 mlynedd a chaiff unrhyw asedau eu hadbrisio gan ddefnyddio mynegeion yn

y cyfamser (ac eithrio adnoddau TG nad sy'n cael eu mynegi) yn ogystal ag adolygiad amhariad blynyddol gan reolwyr.

**1.7 Dibrisiant**
Caiff dibrisiant ei godi ar sail asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio asedau tir ar rydd-ddaliad a threftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Bydd eiddo rhydd-ddaliadol ac eiddo ar brydles hir yn dibrisio yn ystod ei oes ddefnyddiol sef rhwng 50 a 125 mlynedd.

Yn unol â chaniatâd SORP Elusennau 2000, nid yw asedau treftadaeth yn dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddillol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mae oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau treftadaeth eraill mor hir nad yw dibrisiant yn faterol.

Bydd peiriannau, offer, cyfarpar a dyfeisiau'n dibrisio dros 5-10 mlynedd. Mewn achosion penodol, er enghraifft yn achos eitemau sy'n destun newidiadau technegol neu lle bo ffactor darfodol uchel, caiff cyfnod o 3 blynedd ei ddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd gan rai eitemau penodol eraill gyfnod dibrisio hirach.

Codir ar asedau ar brydles ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

**1.8 Cronfeydd**
Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Digyfyngiad ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill y Llywodraeth.

Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yw cronfeydd sy'n dibynnu ar gyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr. Rhaid i'r cronfeydd hyn gyd-fynd â'u gweithredoedd sefydlu.

**1.9 Stoc**
Mae'r Amgueddfa'n cadw stoc o gyhoeddiadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ei siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth net y maent yn ei dynnu.

**1.10 Buddsoddiadau**
